# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 21 Mai 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13911

# 210

## Enwebiadau ar gyfer cadeirydd y pwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gwahoddodd y Llywydd enwebiadau ar gyfer cadeirydd y pwyllgor a ganlyn yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Llafur)**

Enwebwyd Mike Hedges gan Jack Sargeant. Eiliodd Hefin David yr enwebiad.

Enwebwyd Alun Davies gan Jenny Rathbone. Eiliodd Mark Drakeford yr enwebiad.

Gan fod dau enwebiad, cyfeiriodd y Llywydd yr enwebiadau ar gyfer pleidlais gyfrinachol yn unol â Rheol Sefydlog 17.21.

**Canlyniadau**

Am 17.26, cyhoeddodd y Llywydd ganlyniad y bleidlais gyfrinachol ar gyfer ethol cadeirydd pwyllgor:

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Llafur):

| Alun Davies | Mike Hedges | Ymatal | Difethwyd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| 26 | 27 | 1 | 1 | 55 |

Datganodd y Llywydd bod Mike Hedges wedi ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i’r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.32

Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i’r Cwnsler Cyffredinol ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.23

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15.57

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Ymgynghoriad ar y Flwyddyn Ysgol - Gohiriwyd tan 4 Mehefin

Gohiriwyd yr eitem hon tan 4 Mehefin.

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Fframwaith Imiwneiddio Cenedlaethol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.48

## 7 Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024

Dechreuodd yr eitem am 17.11

**NDM8586** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2024.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 17.27

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 22 Mai 2024